

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## LEFEL 3



Hiring **good people**  
is good business

Be Disability Confident



# Hyderus o ran Anabledd – **Arweinydd**

## Cynnwys

[Rhagair y Gweinidog](#)

[Cyflwyniad](#) ..... 1

[Yr her](#)..... 2

[Arweinyddiaeth](#) ..... 3

[Beth fydd yn digwydd nesaf?](#) ..... 4

Mae'r canllawiau hyn yn egluro sut i ddod yn **Arweinydd Hyderus o ran Anabledd** ar lefel 3 o'r cynllun Hyderus o ran Anabledd.

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Rhagair y Gweinidog

Diolch am gymryd y cam hwn ar eich taith Hyderus o ran Anabledd. Gall Hyderus o ran Anabledd eich helpu i recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl a fydd yn helpu'ch busnes i lwyddo. Bydd y bathodyn Hyderus o ran Anabledd hefyd yn dangos i bobl anabl eich bod yn cydnabod y gwerth y gallant ei roi i'ch busnes - gan eich rhoi ar y blaen wrth chwilio am dalent.

Dylai pob busnes sy'n ceisio bod ar y blaen i'w cystadleuwyr anelu at fanteisio ar y swm enfawr o dalent y gall pobl anabl ei gynnig. Rwy'n dweud hynny fel cyflogwr fy hun, nid fel Gweinidog yn unig. Cyn i mi ddod yn Aelod Seneddol, elwodd fy musnes fy hun o'r hyder i recriwtio pobl anabl, a'r hyder, lle bo angen, i wneud newidiadau bach yn aml i'w galluogi i ffynnu yn y gwaith.

Lle bynnag y mae rhwystr, mae'r Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i'w ddileu. Rydyn eisiau system sy'n gweithio i bawb, gan gynnwys busnesau bach sy'n asgwrn cefn i'n heconomi. Dyna pam mae Hyderus o ran Anabledd mor bwysig. Fe'i cynlluniwyd yn fwriadol i fod yn hawdd i fusnesau bach gael mynediad iddo ar lefel 1 a 2, gan fod yn ddigon hyblyg ar yr un pryd i helpu'r busnesau mwyaf i wella.

Gyda chyflogaeth anabl yn uwch nag erioed, rydym ar y trywydd cywir, ond rydym yn uchelgeisiol i wneud mwy. Gyda'ch help chi gallwn sicrhau bod pob unigolyn anabl yn cael y cyfle i lwyddo yn y gwaith a bod pob busnes yn cael y cyfle i ffynnu.



**Justin Tomlinson**

**Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith**

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Cyflwyniad

### Beth gall ei wneud i'm busnes?

Bydd eich busnes eisoes wedi cynnal yr hunanasesiad ac yn cael ei gydnabod fel **Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd**. Byddwch eisoes yn manteisio ar y gronfa ehangaf posibl o dalent, ac yn denu ac yn cadw staff sy'n fedrus, yn deyrngar ag yn weithgar.

Trwy ddatblygu i fod yn **Arweinydd Hyderus o ran Anabledd**, gall eich busnes ennill cydnabyddiaeth gan:

- Staff anabl yn eich busnes
- Pobl anabl y tu allan i'ch busnes
- Busnesau eraill
- Eich cwsmeriaid
- Y gymuned ehangaf

Byddant i gyd yn gwybod eich bod wedi gwneud asesiad ar ba mor Hyderus o ran Anabledd yw eich busnes ac yn gosod yr asesiad hynny ar gyfer her allanol.

Byddwch hefyd yn gweithredu fel hyrwyddwr ar gyfer Hyderus o ran Anabledd o fewn eich cymunedau lleol a busnes, ac yn annog a chynnal busnesau eraill eich cadwyn(ni) gyflenwi a'ch rhwydweithiau i ddod yn Hyderus o ran Anabledd. Wrth wneud hynny, byddwch yn dangos i bobl anabl eich bod yn arwain y ffordd wrth gael pob busnes i ddod yn Hyderus o ran Anabledd.



Canllaw ymarferol i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl anabl a'r rheini â chyflyrau iechyd hirdymor



Mencap yn Dda i Fusnes - Manteision cyflogi pobl ag anabledd dysgu.

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Datblygu i fod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd

Rydych eisoes wedi cwblhau'r hunanasesiad Hyderus o ran Anabledd ac yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2).

Mae dau gam chwanegol y mae angen i chi eu gwneud er mwyn bod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd:

- **Yr her**
- **Arweinyddiaeth**

Pan fyddwch wedi cwblhau'r camau gweithredu a gweithgareddau'n llwyddiannus i fod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, bydd angen i chi ddilyn y ddolen yn yr adran [Beth fydd yn digwydd nesaf?](#) i gadarnhau:

### Yr her

- rydych wedi cael eich hunanasesiad ei ddilysu, a chan bwy
- mae eich dilysydd(dilyswyr) yn cytuno â'ch tystiolaeth a'ch asesiad, ac eich bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r camau gweithredu craidd fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

### Arweinyddiaeth

- y gweithgareddau sydd gennych neu rydych yn eu cymryd i gefnogi eich bod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## 1. Yr her

Bydd eich busnes eisoes wedi cwblhau'r hunanasesiad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn llwyddiannus. Y cam nesaf tuag at ddod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd yw sicrhau bod eich hunanasesiad yn cael ei ddilysu'n annibynnol. Fel arfer, bydd maint a chymhlethdod eich busnes yn pennu sut rydych yn mynd ati i wneud hyn.

Mae'r broses ar gyfer dilysu yn cynnwys dilyswyr yn edrych ar bob un o'r meini prawf a'r dystiolaeth rydych wedi'i gofnodi ar eich templed tystiolaeth Cyflogwr yn eich hunanasesiad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a sicrhau eich bod yn:

- cyflawni yn erbyn pob un o'r camau gweithredu craidd
- gallu darparu tystiolaeth ar gyfer pob un o'r gweithgareddau rydych yn eu cynnig i gael y bobl gywir ar gyfer eich busnes ac i gadw a datblygu eich pobl

Bydd y templed yn **Atodiad A** (ar ddiwedd y ddogfen hon) yn eich helpu chi a'ch dilyswyr â'r broses. Dylech gopïo a gludo'r wybodaeth o'ch Hunanasesiad Cyflogwr i'r templed hwn fel y gall eich dilyswr ei ddefnyddio i'w hasesu ac ychwanegu eu sylwadau.

Mae gan nifer o fusnesau mawr eisoes , neu'n gweithio tuag at, achrediad allanol cydnabyddedig sy'n cwmpasu holl elfennau'r hunanasesiad Hyderus o ran Anabledd - gallai'r math hwn o achrediad dilysu'r hunanasesiad ar gyfer Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

Efallai y bydd busnesau llai yn dymuno dewis o opsiynau eraill sydd ar gael iddynt, gan adlewyrchu maint y busnes. Gall y rhain gynnwys gofyn i fusnes Arweinydd Hyderus o ran Anabledd presennol ymgymryd â'r dilysu, yn cynnwys sefydliad person anabl allanol sydd â'r arbenigedd angenrheidiol, neu'n cynnwys pobl anabl y tu mewn a'r tu allan i'r busnes. Efallai y byddwch yn penderfynu defnyddio cymysgedd o'r ymagweddau hyn. Yr hyn sy'n allweddol yma yw cael yr hunanasesiad ei ddilysu gan bobl neu sefydliad sy'n gallu darparu lefel briodol o her yn seiliedig ar eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain.

Dylai lefel yr her fod yn gymesur â maint y busnes. Rhoddir awgrymiadau o'r bobl, grwpiau neu sefydliadau a all helpu i ddilysu eich cais i ddod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd isod.

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Micro-gyflogwyr (1 i 9 o weithwyr) a chyflogwyr bach (10 i 49 o weithwyr)

Y grwpiau/sefydliadau dilysu posibl i micro-gyflogwyr a chyflogwyr bach yw:

- arweinwyr Hyderus o ran Anabledd presennol
- gweithwyr cwsmeriaid neu bobl anabl yn y gymuned leol
- grwpiau amrywiaeth a chynhwysiant lleol
- sefydliadau neu grwpiau rhwydwaith anabledd lleol
- sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr anabl (DPULOs)
- sefydliadau achrediad cydnabyddedig y mae ei achrediad yn cwmpasu elfennau o'r hunanasesiad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

### Cyngor dilysu i ficro-gyflogwyr

I ddilysu eich hunanasesiad, efallai y byddwch yn penderfynu cael cymorth a chefnogaeth y bobl anabl sy'n gweithio i chi, sefydliadau anabledd lleol neu DPULOs y gallech fod wedi gweithio gyda hwy yn y gorffennol neu yn eich cymuned. Ar gyfer busnesau bach, neu'r rhai mewn ardaloedd anghysbell, efallai y byddwch yn cynnwys pobl anabl lleol eich bod yn dod i gysylltiad â hwy fel cwsmeriaid yn eich cymuned – y peth allweddol yw cynnwys pobl a fydd yn herio eich hunanasesiad.

### Cyngor dilysu ar gyfer cyflogwyr bach

Fel cyflogwr bach, efallai y bydd eich busnes yn fwy cymhleth na micro-gyflogwr a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y lefel o ddilysu. Bydd y dilysydd yn gofyn am dystiolaeth ddogfennol, enghreifftiau o bolisiau ac arferion recriwtio a chadw, mentrau arfer gorau a thystiolaeth sy'n dangos sut y mae unrhyw faterion/pryderon wedi cael eu rheoli'n effeithiol. I ddilysu hunanasesiad, efallai y byddwch yn penderfynu cael cymorth a chefnogaeth grŵp o gwsmeriaid anabl neu bobl anabl sy'n gweithio i chi, sefydliadau anabledd a/neu DPULOs y gallech fod wedi gweithio â hwy yn y gorffennol, neu bobl anabl sydd wedi'u lleoli yn y gymuned leol. Mae rhestr o sefydliadau a all gynnig cymorth ar gael ar wefan Hyderus o ran Anabledd.

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Cyflogwyr canolig eu maint (50 i 250 o weithwyr)

Y grwpiau/sefydliadau dilysu posibl i gyflogwyr canolig eu maint yw:

- Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd presennol
- gweithwyr anabl
- grwpiau neu fforymau rhanddeiliaid anabl
- grwpiau rhwydwaith anabledd cenedlaethol
- sefydliadau anabledd lleol, darparwyr Rhaglen Waith ac Iechyd, grwpiau rhwydwaith
- sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr anabl (DPULOs)
- sefydliadau achrediad cydnabyddedig y mae ei achrediad yn cwmpasu elfennau o'r hunanasesiad cyflogwr Hyderus o ran Anabledd
- sefydliadau anabledd cenedlaethol

## Cyngor dilysu i gyflogwyr canolig eu maint

Fel cyflogwr o faint canolig rydych yn debygol o gael busnes mwy cymhleth na micro-gyflogwr/cyflogwr bach, a chaiff hyn ei adlewyrchu gennych drwy ddarparu tystiolaeth fwy manwl i'r dilyswyr. Bydd y dilysydd yn gofyn am, er enghraifft, tystiolaeth ddogfennol, enghreifftiau o bolisiâu ac arferion recriwtio a chadw, mentrau arfer gorau a thystiolaeth o sut y mae unrhyw faterion/pryderon wedi cael eu rheoli'n effeithiol.

I ddilysu'r hunanasesiad, efallai y byddwch yn penderfynu cael cymorth a chefnogaeth y bobl anabl sy'n gweithio i chi, grwpiau rhwydwaith anabledd, sefydliadau penodol anabledd a/neu DPULOs y gallech fod wedi gweithio â hwy yn y gorffennol. Efallai y byddwch hefyd yn gweithio gyda sefydliad achredu allanol – a bod yr achrediad yn cwmpasu elfennau'r hunanasesiad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, byddai hwn yn bodloni'r dilysu. Mae rhestr o sefydliadau a all gynnig cymorth ar gael ar wefan Hyderus o ran Anabledd.



# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Cyflogwyr mawr (dros 250 o weithwyr)

Y grwpiau/sefydliadau dilysu posibl i gyflogwyr mawr yw:

- sefydliadau achrediad cydnabyddedig y mae ei achrediad yn cwmpasu elfennau o'r hunanasesiad **Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd**
- Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd presennol
- gweithwyr neu gwsmeriaid/cleientiaid anabl
- grwpiau/fforymau amrywiaeth a chynhwysiant mewnol
- grwpiau neu fforymau rhanddeiliaid anabl
- grwpiau rhwydwaith anabledd cenedlaethol
- sefydliadau anabledd lleol, darparwyr Rhaglen Waith ac Iechyd, grwpiau rhwydwaith
- sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr anabl (DPULOs)
- sefydliadau anabledd cenedlaethol

## Cyngor dilysu i gyflogwyr mawr

Fel cyflogwr mawr, yn cyflogi dros 250, byddwch yn casglu gwybodaeth a data amrywiol sy'n dangos yn glir eich bod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Bydd y dilysydd yn gofyn am dystiolaeth ddogfennol fel polisiau a gweithdrefnau cynhwysol a gall gyfeirio at y grwpiau/sefydliadau y gwnaethoch eu cynnwys yn y broses hunanasesu.

I ddilysu'r hunanasesiad, efallai y byddwch yn penderfynu cael cymorth a chefnogaeth y bobl anabl sy'n gweithio i chi, grwpiau rhwydwaith anabledd, sefydliadau penodol anabledd a/neu DPULOs y gallech fod wedi gweithio â hwy yn y gorffennol. Mae rhestr o sefydliadau a all gynnig cymorth ar gael ar [wefan Hyderus o ran Anabledd](#).

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## 2. Arweinyddiaeth

Pan fyddwch yn mynd i'r ddolen i gadarnhau eich cais fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, gofynnir i chi ddarparu naratif byr i ddweud beth rydych yn ei wneud a/neu byddwch yn ei wneud i ddangos eich ymrwymiad fel Arweinydd. Bydd yn hawsach i chi gwblhau hyn ymlaen llaw a gludo'ch cyfraniad i'r blwch perthnasol pan ofynnir i chi wneud hynny.

Fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd byddwch yn annog cyflogwyr eraill i fynd ar y daith i fod yn Hyderus o ran Anabledd.

Bydd sut y gwnewch hyn, ac ar ba lefel, yn dibynnu ar faint a natur eich busnes.

Ar gyfer **pob cyflogwr**, gallai arweinyddiaeth cynnwys:

- annog cyflogwyr eraill yn eich cadwyn gyflenwi
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a rhannu arfer da am Hyderus o ran Anabledd, fel LinkedIn, Twitter, Facebook, blogiau a chylchlythyrau busnes
- rhwydweithio gyda chyflogwyr eraill yn eich diwydiant, drwy glybiau busnes, rhwydweithiau lleol, digwyddiadau busnes ac ati
- bod yn fentor, anogwr, cyfaill neu ddarparu cymorth cymheiriaid i eraill
- ymgysylltu â chyflogwyr lleol eraill i rannu arfer da
- dathlu llwyddiant, er enghraifft yn cael ei henwebu ar gyfer neu'n ennill gwobr gydnabyddedig
- yn cael ei henwebu ar gyfer a/neu ennill gwobrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer cyflogi pobl anabl
- noddi neu gynnal digwyddiadau ysbrydoledig Hyderus o ran Anabledd

Ar gyfer **cyflogwyr canolig eu maint** (50 i 250 o weithwyr) a **chyflogwyr mawr** (dros 250 o weithwyr), gall arweinyddiaeth hefyd gynnwys:

- darparu dilysiad o hunanasesiad(au) i gyflogwyr eraill
- defnyddio contractio i yrru newid cadarnhaol, drwy annog darparwyr cadwyn gyflenwi i ddod yn Hyderus o ran Anabledd

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fyddwch wedi cwblhau'r gweithrediadau a'r gweithgareddau i ddod yn **Arweinydd Hyderus o ran Anabledd** yn llwyddiannus, bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen hon ar wefan Hyderus o ran Anabledd er mwyn cadarnhau eich statws

## Yr her

Drwy'r ffurflen, byddwch yn cadarnhau:

- bod eich hunanasesiad wedi cael ei ddilysu, a chan bwy
- mae eich dilysydd(dilyswyr) yn cytuno â'ch tystiolaeth a'ch asesiad, ac eich bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r camau gweithredu craidd fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

## Arweinyddiaeth

Byddwch hefyd yn cofnodi'r gweithgareddau sydd gennych neu rydych yn eu cymryd i gefnogi eich bod yn arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

## Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r ffurflen

Yn gyfnewid am hynny, byddwn yn cadarnhau eich statws ac yn anfon **bathodyn** Arweinydd Hyderus o ran Anabledd atoch y gallwch ei ddefnyddio ar eich deunydd busnes a chyfathrebiadau eich hun am dair blynedd.

Byddwn hefyd yn anfon **tystysgrif** Arweinydd Hyderus o ran Anabledd atoch i gydnabod eich cyflawniad a rhagor o wybodaeth am sut y gallwch rannu eich profiad a darparu astudiaethau achos i helpu eraill ar eu taith Hyderus o ran Anabledd..

Fel rhan o'r broses o ddyfarnu eich bathodyn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd i chi, byddwn yn cynnwys enw eich busnes a'r dyddiad y daw'r bathodyn i ben ar wefan Hyderus o ran Anabledd.

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Templed dilysu Arweinydd Hyderus o ran Anabledd

Gall eich dilyswyr annibynnol defnyddio'r templed canlynol i herio eich hunanasesiad a chadarnhau eich bod wedi bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer dod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

Dylech gwblhau'r golofn dystiolaeth a fydd yn cael ei ddefnyddio gan eich dilyswr i herio eich hunanasesiad.

Bydd faint o dystiolaeth sydd ei hangen yn amrywio yn dibynnu ar faint a natur y busnes. Mae'r canllawiau ar gyfer pob maen prawf wedi'i gynnwys yn y pecyn hunanasesu (lefel 2) Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, y gallwch ei lawrlwytho oddi ar wefan Hyderus o ran Anabledd.

<b>Enw'r busnes/Sefydliad</b>		
<b>Rhif Cyfeirnod Hyderus o ran Anabledd (DCS00xxxx)</b>		
<b>Enw'r dilysydd (sefydliad, grŵp, fforwm neu Arweinydd Hyderys o ran Anabledd)</b>		
<b>Dyddiad y dilysiad</b>		
<b>Thema 1 – Cael y bobl gywir ar gyfer eich busnes</b> Mae'n rhaid i'r cyflogwr cytuno â'r holl weithrediadau canlynol.		
<b>Meini prawf</b> <b>Fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, fy musnes yw:</b>	<b>Tystiolaeth</b>	<b>Sylwadau'r dilysydd neu weithredu pellach sy'n ofynnol</b>

1. Mynd ati i edrych i ddenu a recriwtio pobl anabl.		
2. Darparu proses recriwtio gwbl gynhwysol a hygyrch.		
3. Cynnig cyfweiliad i bobl anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd.		
4. Yn hyblyg wrth asesu pobl fel bod ymgeiswyr anabl am swyddi yn cael y cyfle gorau i ddangos eu bod yn gallu gwneud y swydd.		
5. Yn cynnig a gwneud addasiadau rhesymol rhagweithiol yn ôl y gofyn.		
6. Annog ein cyflenwyr a chwmnïau partner i fod yn Hyderus o ran Anabledd.		
7. Sicrhau bod gweithwyr yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb anabledd digonol.		

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

<b>Thema 1 – Cael y bobl gywir ar gyfer eich busnes</b>		
Mae'n rhaid i'r cyflogwr cytuno ag o leiaf un o'r gweithgareddau canlynol.		
<b>Gweithgaredd</b>	<b>Tystiolaeth (ystyriwch y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn hunanasesiad y cyflogwr yn unig)</b>	<b>Sylwadau'r dilysydd</b>
1. Darparu profiad gwaith.		
2. Darparu treialon gwaith.		
3. Darparu cyflogaeth â thâl (parhaol neu dymor penodol).		
4. Darparu prentisiaethau.		
5. Darparu hyfforddeiaeth.		
6. Darparu interniaethau â thâl neu interniaethau wedi'u cynnal (neu'r ddau).		
7. Hysbysebu swyddi gwag a chyfleoedd eraill drwy sefydliadau a chyfryngau wedi'u hanelu'n benodol at bobl anabl.		

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

8. Ymgysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, darparwyr y Rhaglen Waith ac lechyd neu sefydliadau lleol i bobl anabl a arweinir gan ddefnyddwyr (DUPLOs) er mwyn cael gafael ar gymorth pan fydd angen.		
9. Darparu amgylchedd sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i staff, cleientiaid a chwsmeriaid.		
10. Cynnig dulliau gweithredu arloesol ac effeithiol er mwyn annog pobl anabl i wneud cais am gyfleoedd a'u cynorthwyo pan fyddant yn gwneud hynny.		

# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

<b>Thema 2 – Cadw a datblygu eich pobl</b>		
Mae'n rhaid i'r cyflogwr cytuno â'r holl weithrediadau canlynol.		
<b>Meini prawf</b> <b>Fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, fy musnes yw:</b>	<b>Tystiolaeth</b>	<b>Sylwadau'r dilysydd neu weithredu pellach sy'n ofynnol</b>
1. Hyrwyddo diwylliant o fod yn Hyderus o ran Anabledd.		
2. Cynorthwyo gweithwyr i reoli eu hanableddau neu gyflyrau iechyd.		
3. Sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i'r broses o ddatblygu staff anabl.		
4. Sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o sut y gallant gynorthwyo staff sy'n sâl neu'n absennol o'r gwaith.		
5. Gwrando ar adborth gan staff anabl a rhoi gwerth iddo.		
6. Adolygu'r hunanasesiad hwn i Gyflogwyr Hyderus o ran Anabledd yn rheolaidd.		



# Hyderus o ran Anabledd – Arweinydd

## Thema 2 – Cadw a datblygu eich pobl

Mae'n rhaid i'r cyflogwr cytuno ag o leiaf un o'r gweithgareddau canlynol.

Gweithgaredd	Tystiolaeth (ystyriwch y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn hunanasesiad y cyflogwr yn unig)	Sylwadau'r dilysydd
1. Cynnig mentora, hyfforddiant, cynllun cyfeillio a rhwydweithiau cymorth eraill i staff.		
2. Cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb ymwybyddiaeth anabledd yn ein proses sefydlu.		
3. Arwain staff tuag at wybodaeth a chynghor ar gyflyrau iechyd meddwl.		
4. Darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol os bydd angen.		
5. Nodi a rhannu arferion da.		
6. Rhoi hyfforddiant Hyderus o ran Anabledd penodol i reolwyr adnoddau dynol.		